

# **Taflen Wybodaeth Gyffredinol** **Anhwylderau Niwroddatblygiadol (AN)**



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe  
Swansea Bay University  
Health Board

## **Beth yw AN?**

Mae AN yn fyr ar gyfer Anhwylderau Niwroddatblygiadol, teulu diagnostig o wyth anhwylder. Mae'r teulu hwn o 'gefndryd' yn cynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD, 5% o'r boblogaeth), Anhwylder Sbectrum Awstistiaeth (ASD, 1%), Anhwylder Iaith (10%), anabled dysgu, dyspraxia, dyslecsia, dyscalwlia ac anhwylder tic (gan gynnwys Tourette's). Mae hwn yn fodel meddygol gyda meini prawf o lawlyfrau diagnostig rhyngwladol ICD-11 neu DSM-5.

Nid yw AN yn fyr ar gyfer niwroamrywiaeth. Wedi'i seilio mewn model cymdeithasol, mae niwroamrywiaeth yn cydnabod ein bod ni i gyd yn wahanol; mae ein hymennydd mor unigryw â'n holion bysedd. Nid yw'r term, niwroamrywiaeth, yn perthyn i un grŵp mewn cymdeithas. Rydym i gyd yn niwroamrywiol ac mae pawb yn gyfrifol am gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn. Mae'r ddau derm, AN a niwroamrywiaeth, yn gweithio orau gyda'i gilydd - i nodi proffil cryfderau, gwahaniaethau ac anghenion rhywun trwy asesiad, gyda diagnosis neu hebdo, yna cynllunio cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy wneud newidiadau i'n hamgylchedd a galluogi pobl o'n cwmpas i deall ac addasu.

## **Beth yw'r gwasanaeth AN lleol?**

Mae'r tîm Anhwylderau Niwroddatblygiadol (AN) yn wasanaeth arbenigol sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Maent yn asesu ASD, ADHD neu'r ddau, mewn plant a phobl ifanc rhwng 5 mlwydd oed a 17 mlwydd a 6 mis oed. Mae pob achos yn aros am asesiad; nid ydynt yn *aros am ddiagnosis*. Mae pob achos yn wahanol; bydd canlyniad eu hasesiad yn adlewyrchu eu proffil unigol a'u hamgylchiadau penodol.

Targed Llywodraeth Cymru yw arhosiad chwe mis am asesiad. Ledled Cymru, mae amseroedd aros yn fwy na dwy flynedd. Ar unrhyw adeg, gall teuluoedd ofyn am gymorth gan wahanol wasanaethau yn y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol neu'r sector gwirfoddol mewn dull system gyfan.

## **Beth yw'r dull system gyfan?**

**Nid yw cymorth yn dechrau gydag atgyfeiriad. Nid yw cymorth yn newid gyda diagnosis.**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddwy system statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc:

1. Anghenion Dysgu Ychwanegol (Deddf ALNET 2018); [www.gov.wales/additional-learning-needs-code](http://www.gov.wales/additional-learning-needs-code)
2. Agwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol (2021) [WG42005](http://WG42005) ([llyw.cymru](http://llyw.cymru))

Gall unrhyw un godi pryderon am gynnydd dysgwr; gall hwn fod yn aelod o'r teulu neu'n weithiwr proffesiynol. Ym mhob achos, mae angen dull cam wrth gam a elwir yn ymateb graddedig. Mae'r dull hwn yn rhan o ddull system gyfan ar gyfer pob dysgwr o dan y Cod Ymarfer ADY. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol gydymffurfio â'r Cod ADY. Mae'r broses gam wrth gam honno bob amser yn dod gyntaf, cyn unrhyw drafodaeth am atgyfeirio at weithiwr proffesiynol neu wasanaeth arbenigol.

1. Mae'n dechrau gyda thrafodaeth rhwng rhieni/gofalwyr a'r ysgol am bryder neu ddiffyg cynnydd, i gytuno ar yr hyn y gall oedolion gartref ac yn yr ysgol ei wneud i helpu a pha gymorth arall sydd ar gael;

2. Unwaith y bydd hynny ar waith, cytunir ar amser i arsylwi a monitro cynnydd;
3. Ar ôl yr amser y cytunwyd arno, caiff cynnydd ei adolygu eto, yn seiliedig ar adborth neu ddeilliannau o asesiad neu ymyriad yn yr ysgol. Efallai y ceir darlun cymysg o rai pethau sydd wedi gwella a phethau eraill nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwylidig eto;
4. Ar y pwynt hwn, dylid cynnal trafodaeth gyda phawb sy'n gysylltiedig i gytuno ar y camau nesaf. Efallai mai un o'r camau hynny fyddai llenwi holiaduron sgrinio i'w trafod neu ddechrau atgyfeiriad.

## **Pwy all gyfeirio?**

Yn 2016, symudodd Llywodraeth Cymru asesiadau ADHD ac ASD allan o CAMHS i wasanaeth niwroddatblygiadol ar wahân. Ers hynny, ni fu unrhyw newid i'r canllaw cenedlaethol y gall unrhyw un ei lenwi ac anfon atgyfeiriad AN. Mae un pecyn ac un llwybr; pwy bynnag sy'n cydlynu'r atgyfeiriad, mae'r ffurflenni a'r broses yr un fath. Pan fydd pawb dan sylw yn trafod cynnydd a chamau nesaf yr ymateb graddedig, os nad oes cytundeb ar y cyd i atgyfeirio, yna gall rhieni ddewis cydgysylltu atgyfeiriad. Ym mhob cam, y flaenoriaeth ddylai fod beth sydd er lles gorau'r PPhl, gan gymryd agwedd ymarferol a chydweithio.

Dim ond un o lawer o gamau posibl ar yr ymateb graddedig yw atgyfeiriad. Rhaid iddo ddisgrifio amgylchiadau unigol y PPhl, y cymorth sydd ar gael i ddysgu a symud ymlaen gydag iaith, datblygiad cymdeithasol-emosiynol ac ymddygiad. Pan fydd angen cyngor mwy arbenigol ar ysgolion i helpu i nodi ADY, gallant gysylltu â gweithwyr proffesiynol gwahanol ar gyfer gwahanol bryderon. Mae'r cyngor proffesiynol hwnnw'n ychwanegu at y wybodaeth a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau am y camau nesaf. Ar gyfer atgyfeiriad, mae eu safbwynt arbenigol ar wahân i'r wybodaeth ysgol neu'r dystiolaeth o'r cartref a adroddwyd gan rieni/gofalwyr. Mae'r Cod Ymarfer Awtistiaeth yn disgwyl i bob gweithiwr proffesiynol allu adnabod ASD neu gyfeirio at asesiad. Gan nad oes Cod ADHD cyfatebol, rhaid i weithwyr proffesiynol unigol benderfynu a oes ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau penodol i nodi ADHD a chefnogi atgyfeiriad.

O dan bolisiau GIG Cymru a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, rhaid i atgyfeiriadau ddod i mewn yn electronig [SBU.NDReferrals@wales.nhs.uk](mailto:SBU.NDReferrals@wales.nhs.uk) a chael eu hychwanegu at y system cleifion o fewn saith diwrnod. Mae'r e-bost ar gyfer cyfeiriadau yn unig, nid ar gyfer ymholiadau cyffredinol. Gyda chyfartaledd o 87 o atgyfeiriadau bob mis, tîm gweinyddol niwroddatblygiadol bach a staff addysgu yn y dosbarth, nid oes digon o amser i ofyn am wybodaeth goll. Ni all y tîm gynnal atgyfeiriadau anghyflawn felly mae'n rhaid eu gwrthod. Rhif ffôn y swyddfa yw 01639 862459 Bydd angen caniatâd rhieni ar staff yr ysgol i gysylltu â ni, ac o 16 oed, mae angen i bobl ifanc roi caniatâd i ni rannu wybodaeth ag unrhyw un.

Mae'r tîm niwroddatblygiadol yn adolygu'r atgyfeiriad i benderfynu a oes angen asesiad ar y PPhl ai peidio, yna ysgrifennu at yr atgyfeiriwr a'r teulu. Rhaid iddynt ddefnyddio meini prawf a chanllawiau gosodedig yn eu penderfyniad i dderbyn neu wrthod. Mae'n rhaid iddynt ddehongli tystiolaeth o'i gymharu â gallu neu ddatblygiad cyffredinol, nid oedran yn unig. eu penderfyniad i dderbyn neu wrthod. Maen prawf arall yw bod yn rhaid i dystiolaeth atgyfeirio ddod o ddau leoliad gwahanol;

Yn yr atgyfeiriad, mae angen i'r cydbwysedd tystiolaeth o'r ddau leoliad gwahanol ddangos:

- Enghreifftiau penodol o wahaniaethau sy'n gysylltiedig ag ASD, ADHD neu'r ddau;
- Nid yw'r gwahaniaethau hynny'n gyson â lefel gyffredinol eu gallu neu â diagnosis arall sydd ganddynt eisoes;

- Mae effaith amlwg ar sut maent yn gweithredu mewn amgylcheddau cymdeithasol a dysgu, yn ogystal â gartref.
- Pan fydd symptomau'n cael eu mesur ar holiaduron, mae'r sgorau yn glinigol arwyddocaol\*

\*Ar gyfer ADHD, mae'n rhaid i sgoriau diffyg sylw neu fyrbwyll gorfywiog fod ar y terfyn neu'n uwch na'r terfyn yn y ddau leoliad

### **Beth am ddiagnosis preifat?**

Gall rhieni/gofalwyr benderfynu talu am asesiad annibynnol ar gyfer Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD). Mae llawer o gwmnïau ac unigolion gwahanol yn cynnig asesiad diagnostig y tu allan i'r GIG. Ar gyfer ADHD, gall teuluoedd dalu am asesiad a threialu meddyginiaeth. Ni all presgripsiynau preifat drosglwyddo'n awtomatig i dimau'r GIG, bydd pob achos yn wahanol yn dibynnu ar yr adroddiad annibynnol. Ni all tîm niwroddatblygiadol y GIG wneud unrhyw argymhellion am ddarparwyr preifat oherwydd nad oes ganddo rôl i sicrhau ansawdd gwasanaethau eraill.

Pan fydd PPI eisoes yn aros am asesiad GIG, os yw rhiant/gofalwyr yn talu am asesiad annibynnol, mae angen iddynt anfon copi o'r adroddiad hwnnw at y tîm niwroddatblygiadol i'w adolygu. Gan fod y tîm wedi derbyn yr atgyfeiriad gwreiddiol yn seiliedig ar angen clinigol am asesiad, mae angen iddynt adolygu'r adroddiad annibynnol i weld *a yw'r asesiad yn bodloni'r safonau ansawdd* y cytunwyd arnynt gan wasanaethau niwroddatblygiadol GIG Cymru. Maent yn adolygu'r dull, nid y canlyniad. Nid oes gan y tîm niwroddatblygiadol unrhyw gyfrifoldeb i gadarnhau neu gymeradwyo diagnosis gan ddarparwr arall.

Os yw'r adroddiad asesu yn dangos y safonau ansawdd hynny, yna nid oes angen asesiad ar y PPhl mwyach. Bydd y tîm Niwroddatblygiadol yn rhyddhau ac yn ysgrifennu at yr atgyfeiriwr a'r rhiant/gofalwr i gadarnhau bod yr asesiad annibynnol o safon gyfatebol i'r un sydd ar gael gan y GIG. Ar gyfer diagnosis ADHD annibynnol, gall teuluoedd fynd â'r llythyr rhyddhau hwnnw at eu meddyg teulu, a all wedyn ysgrifennu at CAMHS i drefnu treial neu fonitro meddyginiaeth. Os *nad* yw'r wybodaeth yn yr adroddiad annibynnol yn dangos safonau ansawdd cytûn GIG Cymru, yna mae gan y tîm niwroddatblygiadol ddyletswydd i asesu o hyd. Byddant yn ysgrifennu at y teulu i egluro eu penderfyniad ac mae'r PPhl yn aros ar y rhestr aros, oni bai bod rhieni'n gofyn iddynt gael eu rhyddhau. Nid yw hyn yn effeithio ar ddiagnosis annibynnol nac yn ei newid; gall rhieni/gofalwyr barhau i rannu'r adroddiad yn rhydd ag eraill.

Os *nad* yw'r PPhl wedi'i atgyfeirio am asesiad GIG ac *nad* yw ar y rhestr aros, nid oes gan y tîm niwroddatblygiadol unrhyw reswm i adolygu diagnosis annibynnol o ADHD neu ASD. Mae unrhyw asesiad annibynnol yn ddewis y rhieni a gallant rannu'r canlyniad fel y dymunant. Os oes gan PPhl ddiagnosis ADHD annibynnol, gall rhai cwmnïau gynnig meddyginiaeth. Os *nad* ydynt yn cynnig hynny ond bod rhieni eisiau treial o feddyginiaeth, byddai angen i'r meddyg teulu ysgrifennu'n uniongyrchol at CAMHS i ofyn iddynt drefnu hyn. Y tîm CAMHS wedyn i adolygu'r adroddiad annibynnol gan ddefnyddio'r un ddogfen safonau ansawdd GIG Cymru. Os byddant yn cytuno bod yr asesiad yn safon gyfatebol, byddant yn cytuno i ddechrau meddyginiaeth. Os *nad* yw'r wybodaeth yn yr adroddiad annibynnol yn dangos safonau ansawdd cytûn GIG Cymru, yna ni all CAMHS gymryd drosodd y gwaith o fonitro'r feddyginiaeth ADHD a byddent yn ysgrifennu at y meddyg teulu a'r rhieni i egluro eu penderfyniad.

## Adnoddau cyffredinol i gefnogi anghenion mewn dull system gyfan

**Cyngor/cymorth i rieni sy'n gofalu:** Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig Cymru [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org); Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig [www.autismwales.org/cy/integrated-autism-service/western-bay/](http://www.autismwales.org/cy/integrated-autism-service/western-bay/); Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe [www.swanseapcf.org](http://www.swanseapcf.org); Cefnogi Anghenion Ychwanegol Castell-nedd Port Talbot (S.A.N) [www.dewis.wales/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=16748.org](http://www.dewis.wales/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=16748.org)

**Sylw a chanolbwyntio:** *gyda diagnosis o ADHD neu hebdo*  
[www.adhdfoundation.org.uk/2022/05/30/information-booklets/](http://www.adhdfoundation.org.uk/2022/05/30/information-booklets/)  
[www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic\\_adhd\\_parents.pdf](http://www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic_adhd_parents.pdf)  
[www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic\\_adhd\\_teachers\\_100921.pdf](http://www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic_adhd_teachers_100921.pdf)

**Ymddygiad:** Tîm Cefnogi Ymddygiad/Lles o'r Awdurdod Lleol; adnoddau ar-lein [www.family-action.org.uk/content/uploads/2020/07/Toolkit-for-Regulation.pdf](http://www.family-action.org.uk/content/uploads/2020/07/Toolkit-for-Regulation.pdf)

**Cydlynu a chynllunio moduron:** *gyda neu heb ddiagnosis o DCD neu ddyspracsia*  
[www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic\\_dcd\\_teachers\\_100921.pdf](http://www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic_dcd_teachers_100921.pdf)  
[www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic\\_dcd\\_teachers\\_100921.pdf](http://www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic_dcd_teachers_100921.pdf)

**Iechyd a Lles Staff:** Hwb Cymorth Cynnar; Tîm Ysgolion Mewn Cyrraedd CAMHS; Ap Teen Toolbox ac archebwch [www.caigraham.com/services/app/](http://www.caigraham.com/services/app/)

**Gwasanaethau ADY Awdurdodau Lleol** [www.swansea.gov.uk/aln](http://www.swansea.gov.uk/aln); [www.npt.gov.uk/27472](http://www.npt.gov.uk/27472)

**Iechyd Meddwl:** Tîm Pwynt Mynediad Sengl yn CAMHS 01639 862 744 e.e. pryder, iselder, hunan-niweidio, anhwylderau bwyta. [www.camhs-resources.co.uk/downloads](http://www.camhs-resources.co.uk/downloads) ;  
[www.youngminds.org.uk](http://www.youngminds.org.uk)

**Gwahaniaethau synhwyraidd:** Therapi Galwedigaethol: [www.sbuhb.nhs.wales/children-and-young-people/childrens-health-services-swansea-and-neath-port-talbot/occupational-therapy/](http://www.sbuhb.nhs.wales/children-and-young-people/childrens-health-services-swansea-and-neath-port-talbot/occupational-therapy/)  
[www.asensorylife.com/](http://www.asensorylife.com/)

**Cwsg:** [www.thesleepcharity.org.uk/information-support/children/](http://www.thesleepcharity.org.uk/information-support/children/)  
[www.thesleepcharity.org.uk/national-sleep-helpline/](http://www.thesleepcharity.org.uk/national-sleep-helpline/)  
[www.cerebra.org.uk/get-advice-support/sleep-advice-service/](http://www.cerebra.org.uk/get-advice-support/sleep-advice-service/)  
[www.cerebra.org.uk/download/sleep-a-guide-for-parents/](http://www.cerebra.org.uk/download/sleep-a-guide-for-parents/)

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:** Therapi Iaith a Lleferydd y GIG, adnoddau ar-lein:  
Sylfaenol: [www.ican.org.uk/media/3225/tct\\_univspeak\\_5-11\\_update.pdf](http://www.ican.org.uk/media/3225/tct_univspeak_5-11_update.pdf)  
Eilaidd: [www.ican.org.uk/media/3226/tct\\_univspeak\\_11-18\\_update.pdf](http://www.ican.org.uk/media/3226/tct_univspeak_11-18_update.pdf)  
Anhwylder iaith: [www.radld.org/about/dld/](http://www.radld.org/about/dld/)

**Strategaethau niwroddatblygiadol cyffredinol** gydag unrhyw ddiagnosis neu hebdo  
[www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic\\_strategy\\_teachers.pdf](http://www.ed.ac.uk/sites/default/files/atoms/files/epic_strategy_teachers.pdf)